

**COFNODION CYFARFOD O'R CYNGOR SIR A GYNHALIWDYD DROS TEAMS AR  
DDYDD IAU, 9 RHAGFYR 2021**

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd Sir R G Thomas (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Sir MC Alexander, B Baynham, J Berriman, G Breeze, J Charlton, L V Corfield, K W Curry, A W Davies, D E Davies, P Davies, S C Davies, M J Dorrance, E Durrant, D O Evans, L George, J Gibson-Watt, M R Harris, S M Hayes, H Hulme, A Jenner, E A Jones, D R Jones, E Jones, G Jones, J R Jones, M J Jones, D Jones-Poston, F H Jump, K Laurie-Parry, H Lewis, P E Lewis, I McIntosh, DW Meredith, JG Morris, R Powell, WD Powell, D R Price, G Pugh, J Pugh, G W Ratcliffe, L Rijnenberg, L Roberts, P Roberts, K M Roberts-Jones, E Roderick, D Rowlands, K S Silk, D Selby, L Skilton, D A Thomas, M Weale, J Wilkinson, A Williams, G I S Williams, D H Williams, J Williams, J M Williams, R Williams ac S L Williams

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Sir M Barnes, B Davies, E M Jones, MC Mackenzie, S McNicholas, C Mills, G Morgan, P C Pritchard a T J Van-Rees.

**2. COFNODION**

Awdurdodwyd y Cadeirydd i lofnodi cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 23<sup>ain</sup> Medi 2021 fel rhai cywir.

**3. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Datganwyd diddordeb gan y Cynghorwyr Sir D Evans, R Harris, MJ Jones, G Jones, R Williams, M Weale, E Vaughan, D Thomas, P Lewis, B Baynham, G Williams, E Jones, L George, E Roderick, J Wilkinson, A Williams, D Price, R Powell, D Davies, G Thomas, A Davies, D Rowlands, A Jones, K Laurie-Parry, W Powell, G Pugh, E Durrant ac EM Jones yn eitem 14 Rhybudd o Gynnig ar gefnogaeth i'r sector amaethyddol.

Datganwyd diddordeb gan y Cynghorydd Sir D Evans yn eitem 8 Trosglwyddiadau yn y Gyllideb.

**4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Cyhoeddodd y Cadeirydd iddo gynrychioli'r Cyngor mewn gwasanaeth ar Sul y Cofio ac yn y Ffair Aeaf. Roedd wedi croesawu staff i ddigwyddiad ar 6ed Rhagfyr i ddiolch iddynt, a chyflwynodd tlysau Barcud Arian i Sian Healey, Raiff Devlin a Howard Owen.

**5. CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD**

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y digwyddiad a gynhaliwyd ar y cyd â Chyngor Sir Ceredigion yn y Ganolfan Technoleg Amgen ger Machynlleth i gofnodi COP26. Roedd Julie James AS y Gweinidog dros Newid Hinsawdd wedi ysgrifennu i ddiolch i'r cynghorau. Nododd y derbyniwyd £16 miliwn trwy'r Gronfa Codi'r Gwastad er mwyn adfer Camlas Sir Drefaldwyn, ac y derbyniwyd cyllid pellach ar gyfer cynlluniau yn Aberhonddu a Llandrindod. Roedd chwe phrosiect wedi derbyn cyllid drwy'r Gronfa Adfywio Cymunedol.

## **6. NODYN BRIFFIO'R PRIF WEITHREDWR**

Cyhoeddodd y Prif Weithredwr fod nifer yr achosion Covid yn y sir dal yn uchel, a bod Gofal Cymdeithasol dal mewn statws parhad busnes. Byddai'r Cyngor yn parhau i gefnogi'r Bwrdd Iechyd gyda'r rhaglen brechu.

Diolchodd i bawb oedd wedi cefnogi'r gwasanaeth addysg ac a oedd wedi ei helpu i wneud cynnydd digonol mewn perthynas ag ymdrin ag argymhellion Estyn, a'r canlyniad oedd nad oedd yr awdurdod bellach yn y categori ar gyfer awdurdodau lleol sy'n peri pryder sylweddol.

Nododd fod y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid newydd fod yn destun arolwg, a disgwylir yr adroddiad ym mis Mawrth, ac y byddai'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol yn destun arolwg yn ystod yr wythnos wedyn. Yn olaf, cyhoeddodd penodiad Georgina Bevan fel Pennaeth Addysg.

## **7. ADRODDIAD MONITRO ESTYN**

Nododd y Cyngor ganlyniadau Ymweliad Monitro Estyn oedd yn golygu fod gwasanaethau addysg y Cyngor wedi cael eu tynnu o'r categori ar gyfer awdurdodau lleol sy'n peri pryder sylweddol. Barn yr arolygwyr oedd bod y gwasanaeth wedi gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion yn sgil yr arolwg craidd mwyaf diweddar.

Diolchodd Deiliad y Portffolio i gydweithwyr ar y Cabinet, y Pwyllgor Craffu ar Ddysgu a Sgiliau, y Bwrdd Gwelliant a Sicrwydd, y Cyfarwyddwr Addysg, swyddogion a phenaethiaid oedd wedi gweithio i sicrhau'r gwelliannau yn unol â gofynion Estyn a newid cyfeiriad y gwasanaeth, gan ymdopi â gofynion y pandemig ar yr un pryd.

Nododd y Cynghorydd Sir Gibson-Watt taw hwn oedd y trydydd tro y bu angen ymyrraeth gan arolygiaethau ar wasanaethau'r Cyngor a mynegodd gobaith na fyddai hyn yn digwydd eto.

Nododd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Ddysgu a Sgiliau y bu gwelliannau sylweddol yn ansawdd yr adroddiadau oedd yn dod gerbron y pwyllgor Craffu. Talodd teyrnged i'r gwasanaethau ADY yn benodol, ac i'r Ysgolion oedd wedi addasu ac wedi derbyn ffyrdd newydd o weithio. Nododd bod llawer o waith i'w wneud eto, ond ar y cyfan, roedd hyn yn newid cadarnhaol iawn o safbwynt newid cyfeiriad i'r gwasanaeth.

## 8. TROSGLWYDDIADAU YN Y GYLLIDEB

Bu'r Cyngor yn ystyried adroddiad oedd yn olrhain pwysau cyllidebol ar y Gwasanaethau Plant ac a oedd yn cynnig trosglwyddo cronfeydd i gyllideb y gwasanaeth i sicrhau fod y sefydliad yn gweithio'n unol â'r rheoliadau ariannol a'i fod yn diwallu ei ddyletswyddau statudol yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Nododd y Cyngorydd Sir Amanda Jenner, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Iechyd a Gofal, bod y Pwyllgor wedi codi nifer o bryderon ac wedi cael sesiwn briffio cyfrinachol ar y costau uchel iawn oedd yn gysylltiedig â nifer fach o achosion hynod gymhleth. Roedd y costau uchel iawn wedi synnu'r Pwyllgor ac roeddynt yn bryderus taw'r Cyngor Sir oedd yn talu'r holl gostau heb unrhyw gyfraniad gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys. Roedd y Pwyllgor yn bryderus nad oedd problemau corfforol a rhai iechyd meddwl yn derbyn triniaeth gydradd. Roedd y Bwrdd Iechyd wedi derbyn gwahoddiad i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor i drafod cydweithio ac i glywed am y cymorth ym maes iechyd meddwl a ddarperir i blant ym Mhowys.

Gofynnodd Aelodau a fyddai'r ffigurau cymharol yn cael eu dadansoddi ar gost y gwariant a ddarparwyd. Cyngor Pennaeth y Gwasanaeth oedd nad oedd y ffigurau'n gymharol. Awgrymodd Deiliad y Portffolio hwyrach y byddai'r Pwyllgorau Craffu am edrych yn fanylach ar y ffigurau.

Cytunodd Pennaeth y Gwasanaeth nad oedd digon o lefydd ar gael yn y sir, a nododd y byddai cartref newydd i blant yn agor yn ne'r sir ac y derbyniwyd caniatâd cynllunio ar gyfer cartref arall yn y gogledd.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaeth y lluniwyd cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag argymhellion adroddiad SWAP ar y Gwasanaethau Plant. Cyngor Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol oedd nad oedd y gwasanaeth yn derbyn un o'r argymhellion mewn perthynas â chyllidebu ar gyfer staff asiantaeth, ac na fyddai'n rhoi hyn ar waith.

Cadarnhaodd Deiliad y Portffolio iddi gwrdd â Gweinidogion Llywodraeth Cymru a oedd wedi bod yn gefnogol iawn, a'r Bwrdd Iechyd I drafod y mater. Roedd y Bwrdd Cydbartneriaeth, sy'n gyfuniad o aelodau a swyddogion y Cyngor a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, wedi cwrdd i drafod hyn yr wythnos flaenorol. Cyngor y Pennaeth Cyllid oedd y byddai pob ffrwd cyllid, gan gynnwys Cronfa Caledi Llywodraeth Cymru, yn cael ei ystyried cyn troi at gronfeydd wrth gefn. Nododd Pennaeth y Gwasanaethau Plant bod y gwasanaeth yn gwneud popeth o fewn ei allu i gadw costau i lawr.

Cynigiwyd yr argymhelliad yn yr adroddiad gan y Cyngorydd Sir Rachel Powell ac fe'i heiliwyd gan y Cyngorydd Sir Myfanwy Alexander a

### PHENDERFYNWYD

- 1. Cymeradwyo'r trosglwyddiadau o £187mil a £350mil a amlinellir yn 4.3 a 4.4 yr adroddiad.**

- 2. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon, y byddai unrhyw bwysau oedd yn weddill fel yr amlinellwyd ym mharagraffau 3.2, 3.10 a 3.11 hyd at uchafswm o £1.854 miliwn yn cael eu hawdurdodi, a'u trosglwyddo o Gronfeydd Rheoli Cyllideb y Cyngor, mor bell a bod tystiolaeth ar gael i gadarnhau y lliniarwyd y pwysau lle bynnag bo'n bosib.**

Roedd y Cyngorydd Sir Laurie-Parry wedi atal pleidlais.

<b>9.</b>	<b>ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL</b>
-----------	--------------------------------------------------------------------

Bu'r Cyngor yn ystyried adroddiad blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol am y cyfnod Ebrill 2020 hyd at fis Mawrth 2021. Wrth gyflwyno'r adroddiad, nododd Deiliad y Portffolio ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion a'r Gymraeg, er gwaethaf diffyg difrifol o ran aelodau staff ac yng ngwyneb y pandemig, roedd y gwasanaeth wedi llwyddo i gynnal lefel wasanaeth uchel oherwydd ymdrechion staff y gwasanaeth, a diolchodd iddynt. Nododd bod 3,000 o bobl yn aros am wasanaethau ar hyn o bryd; y ffigur arferol fyddai 300.

Cyflwynwyd yr adroddiad ar ran y Cyfarwyddwr gan y Prif Weithredwr; roedd y Cyfarwyddwr wedi cael ei alw i ffwrdd ar fusnes brys. Nododd fod y gwasanaeth wedi bod yn gweithredu dan y cynllun parhad busnes ers 20fed Mawrth 2020 gan ganolbwyntio ar gyflenwi gwasanaethau critigol i drigolion. Diolchodd i'r Cyfarwyddwr, Penaethiaid Gwasanaeth, staff y sector gwirfoddol a Deiliaid Portffolios am eu gwaith. Cydnabuwyd hefyd cyfraniad athrawon oedd wedi rhedeg hybiau ysgol i ddarparu lle diogel i blant yn ystod y cyfnodau clo.

Wrth ateb cwestiwn gan Aelod ynghylch addysgu plant adre yn hytrach nag yn yr ysgol, y cyngor a roddwyd i'r Cyngor oedd nad oedd unrhyw ddyletswydd statudol ar awdurdodau lleol ac y gall fod risg i blant oedd yn absennol o'r ysgol. I helpu mynd i'r afael â hyn, roedd y Cyngor wedi penodi dau swyddog estyn allan addysg. Roedd y gwasanaeth wedi treulio amser sylweddol yn ystod y pandemig yn cadarnhau lles plant nad oeddynt yn mynd i'r ysgol.

**PENDERFYNODD y Cyngor yn unfrydol i nodi'r adroddiad.**

<b>10.</b>	<b>TREFNIADAU I DDATBLYGU, CYFLWYNO AC YSTYRIED CYNIGION AMGEN I'R GYLLIDEB</b>
------------	---------------------------------------------------------------------------------

Bu'r Cyngor yn ystyried y trefniadau a'r amserlen i ddatblygu, cyflwyno ac ystyried cynigion amgen i'r gyllideb. Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid y byddai gwybodaeth yn cael ei rhannu gydag Arweinyddion Grŵp i'w hysbysu am newidiadau mewn amcanestyniadau cyllido arfaethedig a'r pwysau ariannol oedd yn cael eu hadnabod. Byddai hyn hefyd yn rhoi cyfle i gynnig cyngor mwy cyffredinol ar holl agweddau ar y gyllideb gan gynnwys lefel y cronfeydd wrth gefn a chyfrifiadau o ran Treth y Cyngor a byddai'n sicrhau fod y cyngor i

grwpiau gwrthbleidiau'n gyson â'r cyngor a gynigir i'r Cabinet wrth iddynt ddatblygu eu cynnig ar gyfer y gyllideb.

Cynigiodd y Cyngorydd Sir H Lewis ac eiliodd y Cyngorydd Sir JM Williams a

**PHENDERFYNWYD cymeradwyo'r broses a'r amserlen a nodir yn yr adroddiad hwn i ddatblygu, cyflwyno ac ystyried cynigion amgen i'r gyllideb.**

Roedd y Cyngorydd Sir K Laurie-Parry wedi atal pleidlais.

Torrodd y Cyngor am 12.46 ac ail-gychwynnodd y cyfarfod am 1.30 pm.

## YN BRESENNOL

Y Cyngorydd Sir R G Thomas (Cadeirydd)

Y Cyngorwyr Sir MC Alexander, B Baynham, J Berriman, G Breeze, J Charlton, L V Corfield, K W Curry, A W Davies, D E Davies, P Davies, S C Davies, M J Dorrance, E Durrant, D O Evans, L George, J Gibson-Watt, M R Harris, S M Hayes, H Hulme, A Jenner, E A Jones, D R Jones, E Jones, G Jones, J R Jones, M J Jones, D Jones-Poston, F H Jump, K Laurie-Parry, H Lewis, P E Lewis, I McIntosh, DW Meredith, JG Morris, R Powell, WD Powell, D R Price, G Pugh, J Pugh, G W Ratcliffe, L Rijnenberg, L Roberts, P Roberts, K M Roberts-Jones, E Roderick, D Rowlands, K S Silk, D Selby, L Skilton, D A Thomas, M Weale, J Wilkinson, A Williams, G I S Williams, D H Williams, J Williams, J M Williams, R Williams ac S L Williams

## 11. DIWYGIADAU I'R CYFANSODDIAD

Bu'r Cyngor yn ystyried diwygiadau i'r Cyfansoddiad a argymhellwyd gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd.

### **Adran 2 – Diben, Diffiniad, Dehongliad a Diwygiad i'r Cyfansoddiad**

Cynigiodd y Cyngorydd Sir JM Williams ac eiliodd y Cyngorydd Beverley Baynham a gyda phleidlais unfrydol

#### **PENDERFYNWYD**

- 1. Cymeradwyo'r diwygiadau i Adran 2 y Cyfansoddiad fel yr amlinellir yn yr Adran 2 drafft sydd ynghlwm wrth yr adroddiad.**
- 2. Yr awdurdodir y Swyddog Monitro i wneud unrhyw newidiadau eraill i'r Cyfansoddiad sydd eu hangen efallai er mwyn adlewyrchu'r newidiadau a amlinellir yn Argymhelliad 1 uchod.**

### **Adran 4 – Y Cyngor Llawn**

Cynigiodd y Cyngorydd Sir J Wilkinson ac eiliodd y Cyngorydd Sir A Davies a gyda phleidlais unfrydol

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyo'r diwygiadau i Adran 4 y Cyfansoddiad fel yr amlinellir yn yr Adran 4 drafft sydd ynghlwm wrth yr adroddiad.
4. Yr awdurdodir y Swyddog Monitro i wneud unrhyw newidiadau eraill i'r Cyfansoddiad sydd eu hangen efallai er mwyn adlewyrchu'r newid a amlinellir yn Argymhelliad 3 uchod.

**Adran 7 – Pwyllgorau Craffu**

Cynigiodd y Cynghorydd Sir E Vaughan ac eiliodd y Cynghorydd Sir B Baynham a

**PHENDERFYNWYD**

5. Cymeradwyo'r diwygiadau i Adran 7 y Cyfansoddiad fel yr amlinellir yn yr Adran 7 drafft sydd ynghlwm wrth yr adroddiad.
6. Yr awdurdodir y Swyddog Monitro i wneud unrhyw newidiadau eraill i'r Cyfansoddiad sydd eu hangen efallai er mwyn adlewyrchu'r newid a amlinellir yn Argymhelliad 5 uchod.

Roedd y Cynghorydd Sir K Laurie-Parry wedi atal pleidlais.

**Adran 8 – Y Pwyllgor Safonau**

Cynigiodd y Cynghorydd Sir E Vaughan ac eiliodd y Cynghorydd Sir J Berriman a gyda phleidlais unfrydol

**PENDERFYNWYD**

7. Cymeradwyo'r diwygiadau i Adran 8 y Cyfansoddiad fel yr amlinellir yn yr Adran 8 drafft sydd ynghlwm wrth yr adroddiad.
8. Yr awdurdodir y Swyddog Monitro i wneud unrhyw newidiadau eraill i'r Cyfansoddiad sydd eu hangen efallai er mwyn adlewyrchu'r newid a amlinellir yn Argymhelliad 7 uchod.

**Adran 9 – Pwyllgorau Rheoleiddiol**

Cynigiodd y Cynghorydd Sir R Williams ac eiliodd y Cynghorydd Sir E Vaughan a gyda phleidlais unfrydol

**PENDERFYNWYD**

9. Cymeradwyo'r diwygiad i Adran 9 y Cyfansoddiad fel yr amlinellir yn Adran 9 drafft sydd ynghlwm wrth yr adroddiad.
10. Yr awdurdodir y Swyddog Monitro i wneud unrhyw newidiadau eraill i'r Cyfansoddiad sydd eu hangen efallai i adlewyrchu'r newid a amlinellir yn Argymhelliad 9 uchod.

#### **Adran 11 – Swyddogion**

Cynigiodd y Cyngorydd Sir R Williams ac eiliodd y Cyngorydd Sir E Vaughan a

#### **PHENDERFYNWYD**

11. Cymeradwyo'r diwygiadau i Adran 11 y Cyfansoddiad fel yr amlinellir yn Adran 11 drafft sydd ynghlwm wrth yr adroddiad.
12. Yr awdurdodir y Swyddog Monitro i wneud unrhyw newidiadau eraill i'r Cyfansoddiad sydd eu hangen efallai i adlewyrchu'r newid a amlinellir yn Argymhelliad 11 uchod.

Roedd y Cyngorydd Sir K Laurie-Parry wedi atal pleidlais.

#### **Adran 13 – Cyfrifoldeb am Swyddogaethau**

Cynigiodd y Cyngorydd Sir R Williams ac eiliodd y Cyngorydd Sir E Vaughan a gyda phleidlais unfrydol

#### **PENDERFYNWYD**

13. Cymeradwyo'r diwygiad i Adran 13 y Cyfansoddiad fel yr amlinellir yn Adran 13 drafft sydd ynghlwm wrth yr adroddiad.
14. Yr awdurdodir y Swyddog Monitro i wneud unrhyw newidiadau eraill i'r Cyfansoddiad sydd eu hangen efallai i adlewyrchu'r newid a amlinellir yn Argymhelliad 13 uchod.

#### **Adran 15 – Rheolau mewn perthynas â Gweithdrefnau'r Gyllideb**

Cynigiodd y Cyngorydd Sir E Vaughan ac eiliodd y Cyngorydd Sir JM Williams a

#### **PHENDERFYNWYD**

15. Cymeradwyo'r diwygiadau i Adran 15 y Cyfansoddiad fel yr amlinellir yn Adran 15 drafft sydd ynghlwm wrth yr adroddiad.
16. Yr awdurdodir y Swyddog Monitro i wneud unrhyw newidiadau eraill i'r Cyfansoddiad sydd eu hangen efallai i adlewyrchu'r newidiadau a amlinellir yn Argymhelliad 15 uchod.

Roedd y Cynghorydd Sir K Laurie-Parry wedi atal pleidlais.

### **Adran 16 – Rheolau mewn perthynas â Gweithdrefnau Ariannol**

Cynigiodd y Cynghorydd Sir E Vaughan ac eiliodd y Cynghorydd Sir JM Williams a

#### **PHENDERFYNWYD**

**17. Cymeradwyo'r diwygiadau i Adran 16 y Cyfansoddiad fel yr amlinellir yn yr Adran 16 drafft sydd ynghlwm wrth yr adroddiad.**

**18. Yr awdurdodir y Swyddog Monitro i wneud unrhyw newidiadau eraill i'r Cyfansoddiad sydd eu hangen efallai i adlewyrchu'r newid a amlinellir yn Argymhelliad 17 uchod.**

Roedd y Cynghorydd Sir K Laurie-Parry wedi atal pleidlais.

### **Adran 18 – Cod Ymddygiad Aelodau**

Cynigiodd y Cynghorydd Sir E Vaughan ac eiliodd y Cynghorydd Sir R Williams a gyda phleidlais unfrydol

#### **PENDERFYNWYD**

**19. Cymeradwyo'r diwygiad i Adran 18 y Cyfansoddiad fel yr amlinellir yn yr Adran 18 drafft sydd ynghlwm wrth yr adroddiad.**

**20. Yr awdurdodir y Swyddog Monitro i wneud unrhyw newidiadau eraill i'r Cyfansoddiad sydd eu hangen efallai i adlewyrchu'r newid a amlinellir yn Argymhelliad 19 uchod.**

Gadawodd y Cynghorydd Sir J Jones y cyfarfod am 14.12.

<b>12.</b>	<b>DIWYGIADAU I'R CYTUNDEB RHWNG AWDURDODAU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU</b>
------------	----------------------------------------------------------------------------

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo diwygiadau i'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru i adlewyrchu'r datblygiadau mewn perthynas â threfniadau cyfuno Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir R Williams ac eiliodd y Cynghorydd Sir A Davies a gyda phleidlais unfrydol

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r diwygiadau i'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau fel yr amlinellir yn Atodiad 1 yr adroddiad.**



**13. PENODIADAU I GYRFF A PHWYLLGORAU ALLANOL**

Nododd y Cyngor y penodiadau canlynol a wnaethpwyd gan grwpiau gwleidyddol ac a gymeradwywyd gan y Swyddog Monitro:

Penodiad y Cynghorydd Gwilym Williams i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn lle'r Cynghorydd Jon Williams.

Penodiad y Cynghorydd Karl Lewis i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn lle'r Cynghorydd Iain MacIntosh.

Penodiad y Cynghorydd Ange Williams i'r Pwyllgor Cyflogaeth ac Apeliadau yn lle'r Cynghorydd Jon Williams.

Nododd y Cynghorydd Sir John Morris fod pedwar o benodiadau'r Cyngor i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn dod o du allan i ardal y Parc, a gofynnodd i arweinyddion grŵp drafod hyn, ac awgrymodd y dylid trafod y mater yn y Cyngor.

**14. RHYBUDD O GYNNIG – COEDWIGO CYFRIFOL – DULL O WEITHIO CYNALIADWY AC NAD YW’N YMELWA**

Nododd y Cadeirydd fod cynigydd ac eilydd y cynnig hwn wedi cytuno cyflwyno ystyriaeth o'r cynnig er mwyn gallu ceisio gollyngiad gan y Pwyllgor Safonau ar gyfer aelodau sydd â diddordeb efallai.

**15. RHYBUDD O GYNNIG – NEWID SYLWEDDOL O RAN GWEITHREDU YNGHYLCH YR HINSAWDD A MABWYSIADU'R SAFON UN BLANED**

Gadawodd y Cynghorydd Sir Les Skilton y cyfarfod am 14.29.

Bu'r Cyngor yn trafod y cynnig canlynol a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Jackie Charlton ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Jake Berriman.

Mae'r Cyngor hwn yn nodi fod:

Gan y Cyngor gyfle i wneud newid sylweddol wrth fynd i'r afael â'r argyfwng sy'n ein hwynebu; bu cynnydd yn arafach nag a ragwelodd trigolion a rhanddeiliaid, a'r broses monitro ac adborth yn llai tryloyw nag y bydden nhw wedi dymuno.

Mae angen cynyddu cyflymder a gonestrwydd er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng yn yr hinsawdd ac ecolegol. Bydd uchelgais ac arweiniad gan y Cyngor yn allweddol i ennyn ein cymuned a rhanddeiliaid lleol i ymrwmo er mwyn cyrraedd y targed a osodwyd ym mis Medi o gyrraedd Net Sero erbyn 2030.

Yn sgil cynhadledd ryngwladol COP26 a gynhaliwyd yng Nglasgow, doedd dim amheuaeth am ddifrifoldeb a brys y sefyllfa i gymunedau yn y wlad hon a thramor. Mae angen newid diwylliannol sylweddol o ran ein hymateb fel sefydliad cyfan lle gallwn ddweud beth sy'n digwydd, a gweithredu'n unol â'n haddewidion, gan ysbrydoli eraill i weithredu hefyd.

Mae Cyngor Abertawe yn cynnal peilot ar gyfer menter newydd - sef Safon Un Blaned, a lansiwyd ar gyfer COP26; ei nod yw cefnogi sefydliadau fel ein cyngor i addasu gweithgareddau er mwyn iddynt gyfateb i'n dyheadau amgylcheddol. Gyda chefnogaeth Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Sophie Howe, gall y Safon Un Blaned helpu Cyngor Powys i fod yn effeithlon o safbwynt adnoddau, datblygu llwybrau'r economi cylchol trwy gyflogi gweithwyr, cadwyni cyflenwi, cwsmeriaid ac unrhyw un eraill sy'n cael ei effeithio gan ein gweithgareddau. Mae'r Safon Un Blaned yn cefnogi gwelliant parhaus, trwy Gynllun Cylch Daionus Syml > Gwneud > Gwirio > Gweithredu sy'n cael eu gosod yn erbyn ein nodau, cerrig milltir a'n hamserlenni ein hunain. Yn ei hanfod, methodoleg adrodd integredig yw i helpu sefydliad mesur, bod yn atebol am a gwella effaith amgylcheddol ei weithgareddau. Bydda'r Safon Un Blaned yn defnyddio pum ffordd o weithio:

**Hirdymor** – Sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a bodloni anghenion hirdymor.

**Atal** – gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu, trwy ddefnyddio egwyddor ragofalus.

**Integreiddio** – ystyried sut mae holl weithredoedd Powys yn effeithio ar ei gilydd, ar nodau cymdeithasol ac ecolegol, ac ar fuddion a gweithredoedd rhanddeiliaid.

**Cydweithio** - gydag unrhyw unigolyn arall (neu adrannau gwahanol) fyddai'n gallu helpu Powys i fodloni ei amcanion a'i nodau cymdeithasol ac ecolegol.

**Cynnwys** – cynnwys amrediad eang o bobl wrth wireddu ei nodau cymdeithasol ac ecolegol, gan sicrhau fod y bobl hynny o ac yn adlewyrchu amrywiaeth Powys.

Bydd deall a mabwysiadau gofynion Safon Un Blaned yn helpu Deiliad y Portffolio ar gyfer yr amgylchedd a'r argyfwng ecolegol, ac aelodau eraill y Cabinet i siapia cyfeiriad strategol, a'r uwch dîm rheoli i wireddu newid, tra ar yr un pryd, helpu staff i newid y diwylliant corfforaethol. Bydd ein partneriaid a'n cwsmeriaid yn gwerthfawrogi'n well ein huchelgais ac yn dewis ymuno â ni ar y daith hon.

Mae'r Cyngor yn galw ar gyfer:

Atgyfnerthu ei ddatganiad o argyfwng yn yr hinsawdd ym Medi 2020, ei benderfyniad ymwrthod yn 2018 a'i ddiddordeb yn y Cynllun Gweithredu i Adfer Natur Leol sy'n bwysig o safbwynt adrodd ar Adran 6 y Ddyletswydd o ran Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau.

**Mae'r Cyngor hwn yn penderfynu:**

- Galw ar aelod y cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd am newid sylweddol clir a gweladwy mewn perthynas â gweithgaredd angenrheidiol i wireddu

ymrwymiad Powys i fodloni ei darged net sero erbyn 2030, cyhoeddi'r asesiad gwaelodlin a gytunwyd a Chynllun Gweithredu i leihau carbon ar gyfer aelodau, rhanddeiliaid a thrigolion er mwyn ei asesu ar frys.

- Bod yr ail Gyngor trwy Gymru i gynnal peilot o gynllun Safon Un Blaned cyn penderfyniad, ar ôl mis Mai 2022, i benderfynu a ddylid ei fabwysiadu'n ffurfiol fel ffordd newydd o weithio.
- Gofyn i Gadeirydd Cronfa Pensiwn Powys i alw ar Gronfa Pensiwn Cymru i ddefnyddio ei grym, gan gynnwys ei dylanwad fel un o gronfeydd pensiwn mwyaf y DU, i annog ymwrthod fel y cytunwyd yng nghyngor 2018.

Eglurodd y Cyngorydd Charlton taw diben y cynnig oedd gwella ac atgyfnerthu'r cynnig a gytunwyd gan y Cyngor ar argyfwng yr hinsawdd. Dadl yr Arweinydd oedd bod y Cyngor yn symud mor gyflym â phosib yn unol â'r adnoddau ariannol a staffio oedd ar gael. Nodwyd y cafodd Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd ei lansio yn y Ffair Aeaf, ac y byddai'n destun ymgynghoriad cyhoeddus.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig, a chollwyd y cynnig gyda 21 o blaid a 29 yn erbyn, gydag un yn atal pleidlais.

## **16. RHYBUDD O GYNNIG – RHUBAN GWYN: DIWYLLIANT AC ARFERION**

Gadawodd y Cyngorydd Sir J Williams am 14.44.

Gadawodd y Cyngorydd Sir D Evans am 14.46.

Gadawodd y Cyngorydd Sir L George am 14.50.

Bu'r Cyngor yn trafod y cynnig canlynol a gynigiwyd gan y Cyngorydd Sir P Roberts ac a eiliwyd gan y Cyngorydd Sir J Charlton.

Mae'r Cyfarfod hwn o'r Cyngor yn nodi:-

- Fod AS Canolbarth a Gorllewin Cymru Joyce Watson wedi hyrwyddo achos y Rhuban Gwyn fel rhan o fenter drawsbleidiol, yn gynnar yng nghyfnod y Pedwerydd Cynulliad / Senedd. Roedd y Cyngorydd William Powell wedi cynrychioli Democratiaid Rhyddfrydol Cymru mewn noswyliau a digwyddiadau eraill ar ran Joyce Watson ac roedd wedi cwrdd â nifer o oroeswyr gwahanol. Hyd heddiw mae arweinyddiaeth barhaus Joyce mewn perthynas â'r mater hwn dal yn rhan bwysig o fusnes y Senedd;
- Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi codi proffil cam-drin domestig, rheolaeth orfodaethol a thrais yn erbyn menywod. Mae Prif Gwnstabl HDP sydd newydd ei benodi, Richard Lewis, sydd ar hyn o bryd yn Brif Gwnstabl Heddlu Cleveland, wedi adnabod cam-drin domestig a materion cysylltiedig fel blaenoriaeth uchel;
- Dengys ffigurau'r SYC y bydd bron un o bob tair menyw 16-59 oed yn dioddef o gam-drin domestig rhywbryd yn ystod eu bywydau, bod dwy fenyw bob wythnos yng Nghymru a Lloegr yn cael eu lladd gan bartner cyfredol neu flaenorol, bod dros hanner miliwn o fenywod yn destun trais rhywiol neu

ymsodiad rhywiol bob blwyddyn, a bod pŵl YouGov yn dangos fod traean o ferched wedi dioddef o aflonyddu rhywiol mewn ysgolion;

- Mae'r pandemig byd-eang wedi arwain at fwy o fenywod a merched sy'n agored i gam-drin domestig, ac yn ôl adroddiad newyddion gan y BBC fis Gorffennaf diwethaf, yn ystod tri mis cyntaf y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf, bu cynnydd o 80% mewn galwadau at Linell Gymorth Cam-drin Domestig Cenedlaethol;
- Yn ôl adroddiad diweddar Cymdeithas Fawcett "Tackling sexual harassment in the workplace" - sy'n adrodd ar gamau gweithredu cyflogwyr i atal ac ymateb i aflonyddu rhywiol yn y gweithle, mae dros 40% o fenywod wedi dioddef o aflonyddu yn y gweithle, ac mae 45% wedi dioddef o aflonyddu ar-lein rhywiol ei natur, gyda'r cyfraddau uchaf ymhlith y sawl sydd â nodwedd warchoddedig.
- A bod, yn ôl arolwg ar droseddu a data arall gan y llywodraeth, mae nifer anghymesur o ddioddefwyr yn dod o'r grwpiau hynny sydd eisoes yn dioddef o anghydraddoldeb a heriau ychwanegol yn ein cymdeithas, gan gynnwys unigolion hil gymysg, rhai sydd ag anabledd, neu sy'n drawsrywiol;
- Wrth inni fyfyrion ar ddiwedd twrnaint UEFA Euro 2020 a ohiriwyd, dengys ymchwil blaenorol gan Brifysgol Lancaster y bu cynnydd mewn achosion o gam-drin domestig a gofnodir pan fyddai unrhyw un o'r gwledydd cartref yn chwarae mewn twrnaint mawr, ac mae'r effaith yn benodol mawr ar ddyddiau pan fydd y timau hynny'n colli; a
- Goblygiadau hynod bryderus achos Sarah Everard a'r datgeliadau yn sgil hynny am ymddygiad gwreig-gasaol ymhlith aelodau eraill o'r heddlu.

Mae'r Cyfarfod hwn o'r Cyngor hefyd yn nodi:-

- Rhuban Gwyn yw'r brif elusen yn y DU gyda chenhadaeth i roi terfyn ar ***drais gwrywaidd yn erbyn menywod*** ac yn rhan o fudiad byd-eang Rhuban Gwyn a ddeilliodd o ymgyrch a gychwynwyd gan ddynion o Ganada yn 2004;
- Bob blwyddyn ar 25ain Tachwedd mae Diwrnod Rhuban Gwyn yn cofnodi'r Diwrnod Rhyngwladol i Ddileu Trais yn Erbyn Menywod, trwy annog dynion a bechgyn i addo peidio byth â chymryd rhan mewn, cydoddef neu gadw'n dawel am drais yn erbyn menywod trwy wisgo rhuban gwyn ar y diwrnod ac am wythnos neu ddwy wedyn; ac
- Mae Rhuban Gwyn sy'n gweithio ar draws y 3 gweinyddiaeth ddatganoledig, yn rhedeg system o Genhadon gwrywaidd, Hyrwyddwyr benywaidd ac Eiriolwyr ifainc, yn ogystal â chynhyrchu deunyddiau penodol i gefnogi ysgolion cynradd ac uwchradd, gyda'r nod o annog dynion/bechgyn i ymrwymo i'r addewid a helpu dileu trais gan ddynion yn erbyn menywod.

Mae'r Cyfarfod hwn yn credu nad yw cydoddef trais gan ddynion yn erbyn menywod byth yn iawn, ac y dylai Cyngor Sir Powys wneud popeth o fewn ei allu i sicrhau fod menywod yn ddiogel. Mae gan yr Awdurdod bolisi cadarn ar ddiogelu menywod yn y gweithle ac yn y cymunedau a gefnogir gan y cyngor. Mae hyfforddiant yn orfodol ar gyfer staff a chynghorwyr. Fel rhan o'r cynnig hwn, gofynnwn y dylai'r cyngor hwyluso ac annog cynghorwyr, staff ac ysgolion i gymryd rhan yn Ymgyrch y Rhuban Gwyn.

Felly mae'r Cyfarfod hwn o'r Cyngor yn penderfynu:-

1. Arfer diwylliant er mwyn i bob Cynghorydd gwrywaidd ymrwymo i addewid y Rhuban Gwyn, i beidio byth cymryd rhan mewn, cydoddef neu aros yn dawel am drais yn erbyn menywod;
2. Cynnal mor fuan ag sy'n ymarferol bosib, y camau angenrheidiol i dderbyn achrediad Rhuban Gwyn, ac ymuno â'r nifer fawr o gyrff sector cyhoeddus eraill, gan gynnwys 4 Cyngor o Gymru a Heddlu Dyfed Powys a Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru, sydd wedi gwneud hyn eisoes<sup>iv</sup>; ac
3. Fel rhan o hyn, annog Arweinyddion pob grŵp gwleidyddol i ddod ynghyd i enwebu Cynghorydd gwrywaidd, a'r Prif Weithredwr i enwebu aelod o staff fel Cenhadon; cofnodi Diwrnod Rhuban Gwyn ar 25ain Tachwedd bob blwyddyn trwy gynnal digwyddiad codi arian; ac annog staff y cyngor ac ysgolion cynradd ac uwchradd lleol i gymryd rhan yn yr ymgyrch.
4. Cynnal adolygiad o brotocolau a gweithdrefnau i gadarnhau a yw'r Cyngor yn diwallu ei gyfrifoldeb fel cyflogwr dibynadwy yng ngolau argymhellion Adroddiad Fawcett a datblygu unrhyw addasiadau fel mater o frys.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir M Alexander welliant a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir A Jenner, i:

1. Annog pob Cynghorydd gwrywaidd i ymrwymo i addewid y Rhuban Gwyn, gyda phob cynghorydd i ddilyn hyfforddiant Gofyn a Gweithredu mor fuan ag sy'n ymarferol. Bydd hyfforddiant Cam 3 i Hyrwyddwyr ar gael yn y Flwyddyn Newydd, sy'n cynnig dealltwriaeth fwy trwyadl o'r maes hollbwysig hwn i gynghorwyr yn eu rôl fel arweinyddion yn y gymuned. Gofyn i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ystyried gwneud yr hyfforddiant Gofyn a Gweithredu'n orfodol.
2. Mor fuan ag sy'n ymarferol bosib, cyflawni'r camau angenrheidiol i dderbyn achrediad Rhuban Gwyn, , ac ymuno â'r nifer fawr o gyrff sector cyhoeddus eraill, gan gynnwys 4 Cyngor o Gymru a Heddlu Dyfed Powys a Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru, sydd wedi gwneud hyn eisoes; ac
3. Fel rhan o hyn, annog Arweinyddion pob grŵp gwleidyddol i ddod ynghyd i enwebu Cynghorydd gwrywaidd, a'r Prif Weithredwr i enwebu aelod o staff fel Cenhadon; cofnodi Diwrnod Rhuban Gwyn ar 25ain Tachwedd bob blwyddyn trwy gynnal digwyddiad codi arian; ac annog staff y cyngor ac ysgolion cynradd ac uwchradd lleol i gymryd rhan yn yr ymgyrch.
4. Cynnal adolygiad o brotocolau a gweithdrefnau i gadarnhau a yw'r Cyngor yn diwallu ei gyfrifoldeb fel cyflogwr dibynadwy yng ngolau argymhellion Adroddiad Fawcett a datblygu unrhyw addasiadau fel mater o frys.

5. Y dylai'r Cyngor archwilio'r Pecyn Cymorth sydd i fod i gael ei gyhoeddi gan Gymdeithas Fawcett yn gynnar yn y flwyddyn newydd i gadarnhau ei ddefnyddioldeb o safbwynt ein taith i ddod yn gyflogwr o ddewis i bawb.

Derbyniwyd y gwelliant gan gynigydd ac eilydd y cynnig gwreiddiol, a rhoddwyd y gwelliant gerbron y cyfarfod. Gyda 53 o blaid a neb yn erbyn

#### **PENDERFYNWYD**

1. **Annog pob Cynghorydd gwrywaidd i ymrwymo i addewid y Rhuban Gwyn, gyda phob cynghorydd i ddilyn hyfforddiant Gofyn a Gweithredu mor fuan ag sy'n ymarferol. Bydd hyfforddiant Cam 3 i Hyrwyddwyr ar gael yn y Flwyddyn Newydd, sy'n cynnig dealltwriaeth fwy trwyadl o'r maes hollbwysig hwn i gynghorwyr yn eu rôl fel arweinyddion yn y gymuned. Gofyn i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ystyried gwneud yr hyfforddiant Gofyn a Gweithredu'n orfodol.**
2. **Mor fuan ag sy'n ymarferol bosib, cyflawni'r camau angenrheidiol i dderbyn achrediad Rhuban Gwyn, ac ymuno â'r nifer fawr o gyrff sector cyhoeddus eraill, gan gynnwys 4 Cyngor o Gymru a Heddlu Dyfed Powys a Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru, sydd wedi gwneud hyn eisoes; ac**
3. **Fel rhan o hyn, annog Arweinyddion pob grŵp gwleidyddol i ddod ynghyd i enwebu Cynghorydd gwrywaidd, a'r Prif Weithredwr i enwebu aelod o staff fel Cenhadon; cofnodi Diwrnod Rhuban Gwyn ar 25ain Tachwedd bob blwyddyn trwy gynnal digwyddiad codi arian; ac annog staff y cyngor ac ysgolion cynradd ac uwchradd lleol i gymryd rhan yn yr ymgyrch.**
4. **Cynnal adolygiad o brotocolau a gweithdrefnau i gadarnhau a yw'r Cyngor yn diwallu ei gyfrifoldeb fel cyflogwr dibynadwy yng ngolau argymhellion Adroddiad Fawcett a datblygu unrhyw addasiadau fel mater o frys.**
5. **Y dylai'r Cyngor archwilio'r Pecyn Cymorth sydd i fod i gael ei gyhoeddi gan Gymdeithas Fawcett yn gynnar yn y flwyddyn newydd i gadarnhau ei ddefnyddioldeb o safbwynt ein taith i ddod yn gyflogwr o ddewis i bawb.**

**17.1. Cwestiwn i Ddeiliad y Portffolio Addysg ac Eiddo gan y Cynghorydd Sir William Powell**

**Nodaf eich ymateb i gwestiwn y Cynghorydd Gareth Ratcliffe *ar unrhyw bryd* tua dechrau'r hydref ynghylch Ysgol Uwchradd Gwernyfed, lle dywedwyd eich bod yn hapus fod y tîm bellach yn gallu ailgychwyn y gwaith ar brosiect Ysgol Uwchradd Gwernyfed.**

**A wnewch chi roi diweddariad ac amserlenni arfaethedig imi a'r cymunedau lleol? Wrth inni symud ymlaen, rwyf yn sicr y byddwch yn cytuno gyda mi fod eglurdeb a thryloywder yn hanfodol i sicrhau na chollir cyfleoedd i symud y prosiect hwn yn ei flaen, cyn dechrau'r cyfnod cyn etholiadau mis Mai 2022.**

**Ymateb**

Gallaf adrodd na wnaethpwyd unrhyw gynnydd arall eto ar brosiect adeiladu ysgol Gwernyfed, ond ar hyn o bryd mae'r Tîm Trawsnewid yn ystyried y camau nesaf er mwyn cynnwys y cynllun yn rhaglen waith y flwyddyn nesaf. Ceir diweddariadau pellach pan fydd gwybodaeth bellach ar gael.

Wrth ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Powell, nododd Deiliad y Portffolio y byddai rhaglen waith yn cael ei chyhoeddi cyn gynted â phosib.

**17.2. Cwestiwn i Ddeiliad y Portffolio Tai, Cynllunio ac Adfywio Economaidd gan y Cynghorydd Sir William Powell**

**Yn dilyn y ddadl ddiweddar ar reoli cnofilod yng nghyfarfod Llawn y Cyngor ar gais Grŵp Llafur Cymru a digwyddiadau wedi hynny y cefais f'hysbysu amdanynt yn lleol, a fyddwch gystal â chadarnhau:**

- Pa drefniadau sydd gan Gyngor Sir Powys i fynd i'r afael â'r niwsans a'r goblygiadau o ran iechyd cyhoeddus, a achosir gan gnofilod mewn eiddo rhent sy'n perthyn i'r Cyngor, yn benodol y rhai a ddyluniwyd ar gyfer ac sy'n cael eu meddiannu gan bobl fregus, yr henoed neu bobl agored i niwed, a'r sawl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu broblemau gyda phryder?**
- Ydy adroddiadau am bla cnofilod a wneir gan breswylwyr yn destun triniaeth fel mater o frys a thrwy weithio effeithiol ar draws mwy nag un portffolio, gan y sawl sy'n gyfrifol am Ddiogelu'r Cyhoedd a Thai?**
- Yn amodol ar reoliadau priodol o ran Covid-19, a fydd Deiliaid Portffolio yn sicrhau eu bod ar gael i gwrdd â thrigolion yn ardal De Powys, lle mae'r problemau hyn yn cael effaith niweidiol ar ansawdd eu bywydau?**

**Ymateb**

Diolch am eich cwestiwn.

Deddf Atal Difrod gan Blâu 1947 yw'r fframwaith cyfreithiol sy'n llywio ymateb y Gwasanaeth Tai, sy'n ymwneud â'ch ymholiad.

Yn ôl Deddf 1949 mae gofyn i'r Cyngor: "gymryd unrhyw gamau angenrheidiol i sicrhau, mor bell ag sy'n ymarferol bosib, y cedwir yr ardal yn rhydd rhag llygod

mawr a llygod". Felly, gall y Cyngor orfodi yn erbyn perchennog neu feddiannwr tir lle mae pla o lygod mawr, llygod a plâu eraill. Fel meddiannwr tir ac eiddo ei hun, mae ganddo rwymedigaeth i gymryd camau tebyg sy'n berthnasol i bawb sy'n berchen ar neu sy'n meddiannu eiddo.

Mae gofyn i berchnogion a meddiannwyr tir ysgrifennu at y Cyngor i'w hysbysu os oes nifer sylweddol o lygod mawr, llygod neu blâu eraill yn bresennol ar eu tir. Y perchennog tir neu'r tiffeddiannwr sy'n gyfrifol am reoli unrhyw blâu ac unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â hynny ar dir sy'n eiddo iddynt neu sy'n cael ei feddiannu ganddynt. Os bydd eiddo'n wag, cyfrifoldeb y perchennog tir neu'r tiffeddiannwr yw i gael gwared â'r plâu o'r safle. Os bydd perchennog neu feddiannwr tir yn gwrthod gwneud trefniadau i ddileu pla, yn ei rôl o safbwynt diogelu'r amgylchedd, bydd y Cyngor yn caniatáu 7 diwrnod o rybudd cyn dileu unrhyw blâu o unrhyw dir (boed yn dir wedi'i feddiannu ai peidio). Gall y Cyngor hawlio unrhyw gostau a dalwyd, os oes angen, trwy Ddyfarniad Llys Sirol.

Mewn eiddo sy'n berchen i'r Cyngor, os bydd llygod mawr neu gnofilod wedi mynd mewn i'r eiddo hyn oherwydd diffygion, megis tyllau yn strwythur yr adeilad, mae gan y Cyngor ddyletswydd, trwy Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, i gywiro unrhyw ddiffygion sydd wedi caniatáu i'r fermin gael mynediad at yr eiddo.

Mewn perthynas â'ch cwestiynau, gweler isod...

- Pa drefniadau sydd gan Gyngor Sir Powys i fynd i'r afael â'r niwsans a'r goblygiadau o ran iechyd cyhoeddus a achosir gan gnofilod mewn llety rhent sy'n eiddo i'r Cyngor, yn benodol y rhai a ddyluniwyd ar gyfer ac sy'n cael eu meddiannu gan unigolion bregus, yr henoed neu unigolion agored i niwed, a'r sawl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu broblemau gyda phryder?

Bydd y Gwasanaethau Tai'n edrych ar reoli cnofilod lle bydd fermin wedi cael mynediad i eiddo neu ardal gyffredin mewn llety i bobl hŷn neu bobl agored i niwed, neu eiddo lle cadarnhawyd fod problemau cynnal a chadw sydd wedi achosi iddynt gael mynediad. Lle bo angen, gwneir gwaith atgyweirio i atal cnofilod rhag cael mynediad at yr eiddo eto.

- Ydy adroddiadau am bla cnofiloed a wneir gan breswylwyr yn destun triniaeth fel mater o frys a thrwy weithio effeithiol ar draws mwy nag un portffolio, gan y sawl sy'n gyfrifol am Ddiogelu'r Cyhoedd a Thai?

Mae'r Gwasanaethau Tai'n delio gyda phla cnofilod yn brydlon, trwy gydweithio gyda'r timau Diogelu'r Cyhoedd ac Iechyd yr Amgylchedd i gael cyngor proffesiynol o ran sut i ddelio gyda'r pla'n effeithiol ac unrhyw waith cynnal a chadw neu atgyweirio sydd ei angen i atal y broblem rhag digwydd eto."

- Yn amodol ar reoliadau priodol o ran Covid-19, a fydd Deiliaid Portffolio yn sicrhau eu bod ar gael i gwrdd â thrigolion yn ardal De Powys, lle mae'r problemau hyn yn cael effaith niweidiol ar ansawdd eu bywydau? Rwyf wastad yn hapus i gwrdd ag aelodau'r cyhoedd i drafod unrhyw fater sy'n gysylltiedig â chyfrifoldebau fy mhortffolio.



Doedd dim cwestiwn atodol.

### 17.3. Cwestiwn i Ddeiliad y Portffolio Addysg ac Eiddo gan y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe

A wnaiff deliad y portffolio roi manylion y costau ar gyfer clwstwr cynradd Gwernyfed (fesul ysgol) ar gostau cynnal a chadw cyffredinol fesul blwyddyn ers agor yr ysgolion newydd? Mae nifer o ysgolion yn wynebu'r un problemau/namau dylunio, sy'n effeithio ar gyllidebau'r 3 ysgol. Roedd y broses ysgolion wedi addo ysgolion addas i'w pwrpas, ond mae'r un problemau'n amlygu adeiladau a dyluniadau gwael ar draws y dalgylch. A wnaiff y Cyngor hefyd drefnu cyfarfod gyda phenaethiaid a chadeiryddion i drafod y problemau parhaus hyn ac adnabod lle mae angen i Bowys roi cefnogaeth o safbwynt yr effaith ariannol. Un enghraifft yw adeiladau newydd yr ysgol a gymeradwywyd fel rhai diogel (yn achos caeadau rholer y gegin; bellach cadarnhawyd nad ydynt yn wrthdan, felly nid ydynt yn addas i'w pwrpas). Os ydy Cyngor Sir Powys o ddifrif ynghylch ei raglen ysgolion, mae asesiad o'r dalgylch hon yn hanfodol i sicrhau ei llwyddiant.

#### Ymateb

Ynghlwm mae trafodion 'property plus' clwstwr ysgolion cynradd Gwernyfed. Mae Swyddogion Eiddo ar gael i gwrdd â Phenaeithiaid a/neu Gadeiryddion Llywodraethwyr ar y safleoedd i drafod unrhyw broblemau parhaus o safbwynt cynnal a chadw/dyluniad. Os hoffech dderbyn y cynnig hwn, a fyddwch gystal â chysylltu â Neil Clutton, Prif Reolwr Eiddo ([neil.clutton@powys.gov.uk](mailto:neil.clutton@powys.gov.uk)). Mewn perthynas â chaeadau rholer y ffreutur, mae'r tîm Eiddo Strategol wedi fy hysbysu nad oes gofyn i'r agoriad gweini fod yn wrthdan, oherwydd nid yw'n rhan o'r adran dân.

Wrth ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Ratcliffe, cadarnhaodd Deiliad y Portffolio ei fod yn hapus i gwrdd ag ef a'r penaethiaid.

## 18. RHYBUDD O GYNNIG – CEFNOGAETH I'R SECTOR AMAETHYDDOL

Roedd y Cynghorwyr Sir D Evans, R Harris, MJ Jones, G Jones, R Williams, M Weale, E Vaughan, D Thomas, P Lewis, B Baynham, G Williams, E Jones, L George, E Roderick, J Wilkinson, A Williams, D Price, R Powell, D Davies, G Thomas, A Davies, D Rowlands, A Jones, K Laurie-Parry, W Powell, G Pugh, E Durrant ac EM Jones wedi datgan diddordeb yn yr eitem hon.

Nododd y Swyddog Monitro fod y Pwyllgor Safonau wedi dyfarnu trwydded i aelodau gyda diddordeb personol siarad, ond nid pleidleisio ar yr eitem hon.

Gadawodd y Cadeirydd y cyfarfod am 15.31 ar ôl datgan diddordeb, a'r Is-gadeirydd fu'n cadeirio gweddill y cyfarfod.

Gadawodd y Cynghorydd Sir D Rowlands y cyfarfod am 15.32.

Bu'r Cyngor yn trafod y cynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir E Vaughan ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir B Davies:

Mae'r sector amaethyddol yn hynod bwysig i economi a chymunedau Powys, fel y nodir ar y map hwn. Gyda 9.5 miliwn o ddefaid yng Nghymru, mae un o'r prif

gynhyrchion naturiol, gwllân, wedi cael ei werthu am brisiau isel iawn dros flynyddoedd diweddar.

Mae canolfannau graddio gwllân yn Y Drenewydd ac yn Aberhonddu, ac mae'r sector defaid yn hynod bwysig i Bowys. Hefyd mae gwllân yn gynnyrch naturiol, sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd, ac yn ddeunydd gwrthdan.

Wrth ystyried hyn, mae'r Cyngor yn cynnig y dylai'r awdurdod, fel rhan o fargen Twf Canolbarth Cymru, ystyried cyfleoedd i ychwanegu gwerth at ein cynnyrch amaethyddol, ac yn benodol i weithio gyda'r undebau ffermio a'r Bwrdd Marchnata Gwllân gyda'r bwriad o hwyluso sefydlu sefydliad cyfatebol i WRONZ, sef Sefydliad Ymchwil Gwllân Seland Newydd yma yng Nghanolbarth Cymru, a thrwy hynny, bod yn gatalydd ar gyfer syniadau a chynnyrch arloesol a sgil-gynnyrch masnachol sy'n defnyddio gwllân.

Gyda 26 pleidlais o blaid, a neb yn erbyn,

**PENDERFYNWYD yn unfrydol fod y Cyngor yn cynnig y dylai'r awdurdod, fel rhan o fargen Twf Canolbarth Cymru, ystyried cyfleoedd i ychwanegu gwerth at ein cynnyrch amaethyddol, ac yn benodol i weithio gyda'r undebau ffermio a'r Bwrdd Marchnata Gwllân gyda'r bwriad o hwyluso sefydlu sefydliad cyfatebol i WRONZ, sef Sefydliad Ymchwil Gwllân Seland Newydd yma yng Nghanolbarth Cymru, a thrwy hynny, bod yn gatalydd ar gyfer syniadau a chynnyrch arloesol a sgil-gynnyrch masnachol sy'n defnyddio gwllân.**

**Y Cyngorydd Sir R G Thomas (Cadeirydd)**